



## CYNGOR ARBENNIG

### COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWDYD YN SIAMBR TŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD IAU, 23AIN CHWEFROR 2023 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Cynghorydd E.M. Aldworth - Maer  
Cynghorydd M.A. Adams – Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

C. Andrews, A.P. Angel, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, P. Cook, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, D.T. Davies MBE, N. Dix, G. Ead, C. Elsbury, G. Enright, K. Etheridge, A. Farina-Childs, C. Forehead, E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, M.P. James, L. Jeremiah, G. Johnston, J. Jones, S. Kent, A. Leonard, P. Leonard, C.P. Mann, A. McConnell, B. Miles, C. Morgan, S. Morgan, B. Owen, T. Parry, L. Phipps, M. Powell, H. Pritchard, J. Pritchard, J.A. Pritchard, J. Reed, J. Roberts, J. Sadler, R. Saralis, J. Scriven, J. Simmonds, E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, L.G. Whittle, S. Williams, W. Williams, J. Winslade, K. Woodland, C. Wright

Ynghyd â:

D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros yr Economi a'r Amgylchedd), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd a Dirprwy Swyddog Monitro), A. Southcombe (Rheolwr Cyllid), N. Roberts (Prif Gyfrifydd Grŵp), S. Pugh (Pennaeth Cyfathrebu), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau), R. Barrett (Cofnodwr)

#### ER COF

Cyfeiriodd y Maer at farwolaeth ddiweddar Mrs Margaret Davies, gwraig annwyl y Cynghorydd Tudor Davies MBE. Safodd y Cyngor am funud o dawelwch fel arwydd o barch a chydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Davies MBE ar yf adeg drist hon.

#### TREFNIADAU RECORDIO, FFILMIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, a byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – [Cliciwch yma i'w weld](#). Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

#### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Evans, D.W.R. Preece,

D. Price, J. Rao, S. Skivens and A. Whitcombe, ynghyd â Mrs C. Harrhy (Prif Weithredwr).

## **2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd y datganiadau canlynol ynghylch Eitem Agenda Rhif 5 – Cynigion Cyllideb ar gyfer 2023/24 :-

Datganodd y Cynghorwyr C. Elsbury ac C. Wright fuddiant personol yn yr eitem hon fel Aelodau o Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

Datganodd y Cynghorydd C. Cuss fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei fod yn Gadeirydd Canolfan Gymunedol Ael-y-Bryn ac yn aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Dewi Sant a'r Wigwam yn Rhymni.

Datganodd y Cynghorydd N. George fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Channel View.

Datganodd y Cynghorydd W. Williams fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Tŷ Cymunedol a Chanolfan Hamdden Markham.

Datganodd y Cynghorydd P. Leonard fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei bod yn Gadeirydd Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Channel View.

Datganodd y Cynghorydd C. Morgan fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei fod yn Aelod o Bwyllgorau Canolfan Gymunedol Graig-y-rhaca a Neuadd Bentref Machen.

Datganodd y Cynghorydd T. Parry fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei bod ar Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Hengoed.

Datganodd y Cynghorydd D. Cushing fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei bod yn Gadeirydd Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Cefn Hengoed.

Datganodd y Cynghorydd H. Pritchard fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei fod ar Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan Gymunedol ac yn Aelod o Bwyllgor y Clwb Pêl-droed Lleol.

Datganodd y Cynghorydd C. Mann fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei fod yn Aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Llanbradach.

Datganodd y Cynghorydd E. Forehead fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei bod yn Gadeirydd Canolfan Gymunedol y Fan.

Datganodd y Cynghorydd A. Gair fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei bod yn Aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Tir-y-Berth a Cascade.

Datganodd y Cynghorydd R. Chapman fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei fod yn Gadeirydd Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Fochriw.

Datganodd y Cynghorydd A. McConnell fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei bod yn Aelod o Bwyllgor Neuadd Bentref Machen a Chanolfan Gymunedol Graig-y-rhaca.

Datganodd y Cynghorydd S. Morgan fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei fod yn eistedd ar Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Nelson.

## **ADRODDIADAU SWYDDOGION**

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

### **3. ADRODDIAD STRATEGAETH GYFALAF 2023/2024**

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn amlinellu manylion Strategaeth Gyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 yn unol â'r Cod Darbodus a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ac a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i'w gynnwys. Roedd yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 23 Ionawr 2023 a roddodd sylwadau ar y Strategaeth Gyfalaf cyn ei chyflwyno i'r Cyngor.

Dywedwyd wrth y Cyngor fod yr adroddiad yn croesgyfeirio adroddiad y Prif Weithredwr ar Gyllidebau Refeniw a Chyfalaf ["adroddiad y gyllideb"]; a Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Darbodus Cyllid Cyfalaf ac Adroddiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/2024.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn amlinellu'r egwyddorion a'r fframwaith ar y lefel uchel iawn sy'n llunio cynigion buddsoddi cyfalaf yr Awdurdod. Y prif nod yw darparu rhaglen fforddiadwy o gyfalaf sy'n gyson â'r strategaeth ariannol sy'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor fel y'u nodir yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod; ystyried risgiau cysylltiedig; cydnabod cyfyngiadau ariannol dros y tymor hwy; ac yn cynrychioli gwerth am arian.

Mae'r Strategaeth yn diffinio ar y lefel uchaf sut mae'r broses o wneud penderfyniadau ar y rhaglen gyfalaf yn nodi'r materion a'r opsiynau sy'n dylanwadu ar wariant cyfalaf ac yn nodi sut y caiff yr adnoddau a'r rhaglen gyfalaf eu rheoli. Yn ogystal, dylai'r Strategaeth Gyfalaf gydymffurfio â'r Cod Darbodus ar gyfer buddsoddiad cyfalaf awdurdodau lleol a gyflwynwyd drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gydag amcanion allweddol y Cod o sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau a chynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Trwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar ac wrth nodi bod 56 o blaid, 3 yn erbyn a 4 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Strategaeth Gyfalaf blynyddol ar gyfer 2023/2024.

### **4. STRATEGAETH FLYNYDDOL RHEOLAETH TRYSORLYS, DANGOSYDDION DARBODUS CYLLID CYFALAF A PHOLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW AR GYFER 2023/2024**

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i Strategaeth Flynyddol yr Awdurdod ar gyfer Rheoli'r Trysorlys a set ddata o Ddangosyddion Darbodus sy'n berthnasol i Reoli'r Trysorlys a Chyllid Cyfalaf. Roedd yr adroddiad yn croesgyfeirio adroddiad y Prif Weithredwr ar Gyllidebau Refeniw a Chyfalaf ["adroddiad y gyllideb"]; hefyd yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwn. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth i'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) i gael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod ar gyfer 2023/2024. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 23 Ionawr 2023, a roddodd sylwadau ar yr adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.

Dywedwyd wrth y Cyngor bod y "Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus" diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i Strategaeth Flynyddol gael ei chyflwyno i Aelodau ar neu cyn dechrau blwyddyn ariannol i amlinellu'r gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn paramedrau'r Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys ac Arferion Rheoli'r Trysorlys. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod nodi ei Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer benthyca ar gyfer y flwyddyn i ddod a pharatoi

Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, sy'n nodi'r polisiâu ar gyfer rheoli ei fuddsoddiadau, gan roi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd y buddsoddiadau hynny. Mae'n ofynnol hefyd i'r Awdurdod gymeradwyo a chyhoeddi nifer o ddangosyddion sy'n berthnasol i Gyllid Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys a pharatoi Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw blynyddol.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar y sicrwydd ariannol o £30m ym menthyciadau opsiwn LOBO (Opsiw Rhoddwr Opsiw Benthyciwr) fel y manylir yn Adran 5.7.5 yr adroddiad. Cadarnhaodd y swyddogion nad oedd unrhyw broblemau gyda'r benthyciadau penodol hyn ar hyn o bryd ac nid oedd unrhyw sylwadau wedi'u gwneud i gynyddu'r llog ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r benthyciadau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus trwy Ymgynghorydd Rheoli Trysorlys allanol y Cyngor (Arlingclose) ac os cyfyd cyfle i'r Cyngor ryddhau ei hun o'r benthyciadau hyn os yw'n ddarbodus i wneud hynny, rhoddir ystyriaeth i hyn a bydd adroddiad yn cael ei ddwyn gerbron y Cyngor.

Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at Adran 5.11.4 yr adroddiad a oedd yn cyfeirio at gyfradd darged o 3.50% ar gyfer buddsoddiadau a gofynnodd a oedd hwn yn darged pesimistaidd o ystyried y cynnydd a ragwelir mewn cyfraddau llog. Atgoffodd y Swyddog yr Aelodau bod cyfraddau llog yn hynod gyfnewidiol ar hyn o bryd, ac ar gyfer 2022/23 rhagwelir incwm buddsoddi o tua £2.3m, sydd £824k yn fwy na'r lefel a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, rhagwelir y bydd incwm buddsoddi £1.9m yn uwch na'r lefel a gyllidebwyd, ac mae hyn wedi ei gynnwys fel arbediad dros dro o fewn cynigion cyllideb 2023/24 i'w hystyried yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Trwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar ac wrth nodi bod 54 o blaid, 3 yn erbyn a 6 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD: -

- (i) cymeradwyo'r Strategaeth Flynyddol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys 2023/24;
- (ii) adolygu'r strategaeth yn chwarterol o fewn yr adroddiadau monitro Rheoli'r Trysorlys a gyflwynir i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau a chyfeirio unrhyw newidiadau a argymhellir i'r Cabinet, yn y lle cyntaf, ac i'r Cyngor am benderfyniad. Bydd yr Awdurdod hefyd yn paratoi adroddiad hanner blwyddyn ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys;
- (iii) Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli'r Trysorlys fel yn Atodiad 5 yr adroddiad;
- (iv) Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Ariannu Cyfalaf fel yn Atodiadau 6 a 7 yr adroddiad;
- (v) mabwysiadu'r polisi MRP fel y nodir yn Atodiad 8 yr adroddiad;
- (vi) Cymeradwyo parhad strategaeth fuddsoddi 2022/23 a benthycia i sefydliadau ariannol a chorfforaethau yn unol â'r meini prawf isafswm statws credyd a ddatgelir yn yr adroddiad hwn;
- (vii) rhoi cymeradwyaeth i'r Awdurdod fenthycia £46.8m ar gyfer y Gronfa Gyffredinol i gefnogi rhaglen gyfalaf 2023/24 a £45.0m ar gyfer y rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru a Thai Fforddiadwy y Cyfrif Refeniw Tai;
- (viii) bod yr Awdurdod yn parhau i fabwysiadu'r raddfa gradd buddsoddi fel maen prawf isafswm statws credyd i asesu teilyngdod credyd gwrthbartion addas wrth osod buddsoddiadau;

- (ix) mabwysiadu'r terfynau arian a buddsoddiad fel y nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad.

## 5. CYNIGION CYLLIDEB AR GYFER 2023/24

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb gan y Cynghorwyr C. Elsbury, C. Wright, C. Cuss, N. George, W. Williams. P. Leonard, C. Morgan. T. Parry, D. Cushing, H. Pritchard, C. Mann, E. Forehead, A. Gair, R. Chapman, A. McConnell ac S. Morgan. Gan fod pob datganiad yn bersonol yn unig nid oedd yn ofynnol i Aelodau adael y cyfarfod a gallent gymryd rhan lawn yn y ddatganiad a phleidleisio.

Nododd y Cyngor fod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2023 a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cyngor i gynigion cyllideb 2023/24. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y set gytbwys a phwylllog o gynigion cyllidebol yn dangos effeithiolrwydd strategaeth rheolaeth ariannol barhaus y Cyngor o ystyried y pwysau cyllidebol sylweddol yr oedd yr Awdurdod yn ei wynebu. Pwysleiswyd nad oedd y cynigion yn cynnwys unrhyw doriadau sylweddol i wasanaethau allweddol a bod y Cyngor wedi gweithio'n galed i amddiffyn cymunedau lleol oherwydd y dull ariannol darbodus sy'n cael ei fabwysiadu, sydd yn arbennig oherwydd ymroddiad a phroffesiynoldeb staff y Cyngor ar bob lefel ar draws y sefydliad. Canmolodd yr Aelod Cabinet wydnwch a hyblygrwydd y gweithlu sydd wedi gwneud cymaint i gefnogi anghenion trigolion ar draws yr Awdurdod yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod codiad sefydlog o 6.9% yn Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2023/24, ynghyd â'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, amrywiaeth o arbedion parhaol a thros dro, a Threth y Cyngor arfaethedig o 7.9% wedi arwain at gyllideb gadarn i Aelodau ei hystyried. Cydnabuwyd er nad yw cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn ddymunol, heb y cynnydd hwn byddai angen i'r Awdurdod ystyried mesurau arbed amgen a allai gynnwys toriadau i wasanaethau allweddol. Nodwyd y byddai'r cynnydd arfaethedig yn arwain at gynnydd Band D o £1.91 yr wythnos, a phwysleiswyd bod lefelau presennol Treth y Cyngor ar gyfer Cyngor Caerffili yn parhau ymhlith yr isaf yng Nghymru.

Cyfeiriwyd yr aelodau at nifer o newidiadau allweddol i'r cynigion cyllidebol gwreiddiol sydd wedi'u llunio gan adborth gan drigolion, gan gynnwys ailystyried arbedion gwerth dros £600k fel y rhestrwyd yn Adran 5.3.1 yr adroddiad. Diolchodd yr Aelod Cabinet i bawb a roddodd adborth ar yr arolwg cyllideb ac am gymryd rhan yn Sgwrs Caerffili sydd wedi helpu i lunio'r ffordd y bydd y Cyngor yn cyflawni ei waith yn y dyfodol.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y pwysau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod a phwysleisiodd gyfrifoldebau'r Cyngor i ddarparu cyllideb gytbwys wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus y mae mawr eu hangen yn cael eu diogelu. Canmolodd yr Arweinydd ymdrechion gweithlu'r Cyngor i gefnogi trigolion ar bob cam o'u bywydau, ynghyd â'r gefnogaeth a roddwyd i gymunedau trwy gydol yr argyfwng pandemig a chostau byw, gan warchod aelodau mwyaf bregus cymdeithas a darparu cymorth parhaus i'r rhai sydd â'r angen ariannol mwyaf. Atgoffwyd yr Aelodau y bydd y gost o ddarparu'r gwasanaethau allweddol hyn £55m yn fwy yn 2023/24 ac ni all y cynnydd hwn gael ei gwrdd drwy'r cyllidebau presennol. Er gwaethaf y £22m o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, arbedion parhaol arfaethedig o tua £5m, a chynnydd arfaethedig o 7.9% yn Nhreth y Cyngor, mae hyn yn dal i adael diffyg cyllid sy'n cyfateb i £22m, a fydd yn cael ei ddiwallu drwy ddefnydd untro o gyllid wrth gefn o £15.345m, ynghyd â nifer o arbedion dros dro. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i ffocysu ei gynlluniau parhaus i drawsnewid y sefydliad i fod yn Gyngor modern, ystywyth a chynaliadwy sy'n gallu cyflawni mwy gyda llai o adnoddau.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor ac eglurodd fod y mwyafrif o'r rhain wedi'u neilltuo at ddibenion penodol, megis y Cyfrif Refeniw Tai, balansau

ysgolion, dyfarniadau cyflog, seilwaith y mae mawr ei angen, a chyllid cyfatebol ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac felly ni ellir ei ddefnyddio i gwrdd â'r diffyg cyllid. Yn ogystal, dim ond unwaith y gellir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn, a byddai dargyfeirio'r cronfeydd wrth gefn hyn yn barhaus i gwrdd â chostau uwch yn golygu y byddai'r rhain yn cael eu disbyddu'n llwyr o fewn tair blynedd, ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw byddai'r Cyngor yn cael ei adael â bwlch ariannu o tua £100m. Atgoffwyd yr aelodau hefyd pe byddai'r Cyngor yn dargyfeirio cronfeydd wrth gefn i gwrdd â chostau uwch, byddai'r Fwrdeistref Sirol yn colli allan ar gannoedd o filiynau o bunnoedd mewn cyfleoedd arian cyfatebol allanol. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod angen i'r Cyngor ganolbwyntio ymdrechion ar y cyd ar ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fodern ac effeithlon, wrth wneud popeth posibl i ddiwallu anghenion hirdymor trigolion a chenedlaethau'r dyfodol.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.

Trafododd y Cyngor y cynnydd arfaethedig o 7.9% yn Nhreth y Cyngor a chyfeiriwyd at y pwysau ariannol a oedd eisoes yn wynebu trigolion o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r baich ychwanegol y byddai'r cynnydd hwn yn Nhreth y Cyngor yn ei roi ar aelwydydd. Cyfeiriodd sawl Aelod at y lefel sylweddol o arian wrth gefn sydd gan y Cyngor gan fynegi'r farn mai arian cyhoeddus yw hwn ac y dylid ei ddefnyddio i ddiwallu angen y cyhoedd. Awgrymwyd y gellid rhyddhau £6m ychwanegol mewn cronfeydd wrth gefn i wneud iawn am y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor.

Yn ystod y ddadl, cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant mewn perthynas ag Argymhelliad 1.3.6 o adroddiad eglurhaol y Swyddog, sef codiad o 0% yn Nhreth y Cyngor heb unrhyw doriadau i wasanaethau i'w hariannu o'r cyllid presennol (cronfeydd wrth gefn).

Cafwyd trafodaeth ar y gwelliant ac ailadroddodd nifer o'r Aelodau'r caledi ariannol a wynebir gan drigolion a'r ddibyniaeth gynyddol ar wasanaethau megis banciau bwyd, a allai waethygu pe bai Treth y Cyngor yn cynyddu. Mewn ymateb i'r gwelliant arfaethedig, gofynnodd un Aelod am eglurhad ynghylch pa gronfeydd wrth gefn penodol a fyddai'n cael eu defnyddio i gwrdd â'r diffyg ariannol yn deillio o gynnydd sero yn Nhreth y Cyngor. Mynegodd rhai Aelodau yr angen i ailfeddwl am y cynnydd yn Nhreth y Cyngor o ystyried y goblygiadau i'r trigolion, a chyfeiriwyd hefyd at lefel y cyllid grant a dderbyniwyd gan y Cyngor ac at y tanwariant yn deillio o arian grant ychwanegol a dderbyniwyd gan Llywodreath Cymru o ganlyniad i'r Pandemig Covid-19, a oedd wedi cynyddu lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir.

Darparodd swyddogion eglurhad ar y broses ariannu grant, gan egluro bod grantiau'n cael eu sicrhau at ddibenion penodol gyda thelerau ac amodau ynghlwm, ac er bod y Cyngor wedi derbyn cyllid untro ychwanegol gan Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig, dyna'r rheswm pam fod peth tanwariant yn uwch nag arfer. Roedd y tanwariant hwn bellach wedi'i neilltuo at ddibenion penodol fel y'u cymeradwywyd yn flaenorol gan y Cabinet a'r Cyngor. O ran y gwelliant arfaethedig, eglurodd y Swyddog Adran 151 y byddai cynnydd o sero yn Nhreth y Cyngor yn ychwanegu at y mesurau dros dro sydd eisoes wedi'u cynnwys yng nghynigion cyllideb 2023/24 ac felly'n cynyddu'r gofyniad arbedion o £48m a ragwelir ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd 2024/ 25 i 2025/26.

Cyfeiriodd Aelod at yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gynigion y gyllideb ddrafft, a heriodd honiad y Cyngor ei fod wedi gwrandao ar ei drigolion wrth lunio'r cynigion terfynol, o ystyried nad oedd y mwyafrif o'r 271 o ymatebwyr yn cefnogi cynnydd yn Nhreth y Cyngor nac yn cefnogi cynnydd is yn lle hynny. Cydnabu'r Aelod Cabinet Cyllid a Pherfformiad y gyfradd ymateb isel i'r ymgynghoriad ond pwysleisiodd y byddai cynnydd sero yn arwain at ddiffyg buddsoddiad mewn ysgolion ac yn effeithio ar y trigolion mwyaf bregus pe bai gwasanaethau allweddol yn cael eu torri yn lle hynny, ac anogodd y trigolion hynny sy'n wynebu anawsterau ariannol i gysylltu â thîm Gofalu am Gaerffili i ofyn am gyngor a chymorth os oes angen.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15.4(1) gwnaed cais am bleidlais wedi'i chofnodi ar y gwelliant a gefnogwyd gan 10 Aelod.

**O blaid y Gwelliant:**

A.P. Angel, C. Bishop, D. Cushing, N. Dix, G. Ead, G. Enright, K. Etheridge, A. Farina-Childs, J.E. Fussell, M.P. James, J. Jones, S. Kent, C.P. Mann, B. Owen, T. Parry, H. Pritchard, J.A. Pritchard, J. Reed, J. Roberts, J. Scriven, J. Taylor, L.G. Whittle **(22)**

**Yn erbyn y Gwelliant:**

M. Adams, E.M. Aldworth, C. Andrews, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, P. Cook, S. Cook, C. Cuss, D.T. Davies MBE, C. Forehead, E. Forehead, A. Gair, N. George, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, L. Jeremiah, G. Johnston, A. Leonard, P. Leonard, A. McConnell, B. Miles, C. Morgan, S. Morgan, L. Phipps, M. Powell, J. Pritchard, J. Sadler, R. Saralis, J. Simmonds, E. Stenner, C. Thomas, S. Williams, W. Williams, J. Winslade, K. Woodland, C. Wright **(40)**

Datganwyd bod y gwelliant wedi ei golli gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

Yna cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant pellach mewn perthynas ag Argymhelliad 1.3.6 o adroddiad eglurhaol y Swyddog, sef bod cynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor gyda'r diffyg o £2.4m yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn.

Cafwyd trafodaeth ar y gwelliant arall, a gofynnwyd am eglurhad ynghylch pa gronfeydd wrth gefn penodol fyddai'n cael eu defnyddio i gwrdd â'r diffyg o £2.4m. Awgrymodd un Aelod y gellid defnyddio tanwariant ar draws Addysg a Dysgu Gydol Oes a Chyllid Amrywiol yn hyn o beth.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15.4(1) gwnaed cais am bleidlais wedi'i chofnodi ar y gwelliant, a gefnogwyd gan 10 Aelod.

**O blaid y Gwelliant:**

A.P. Angel, C. Bishop, D. Cushing, N. Dix, G. Ead, G. Enright, K. Etheridge, A. Farina-Childs, J.E. Fussell, M.P. James, J. Jones, S. Kent, C.P. Mann, B. Owen, T. Parry, H. Pritchard, J.A. Pritchard, J. Reed, J. Roberts, J. Taylor **(20)**

**Yn erbyn y Gwelliant:**

M. Adams, E.M. Aldworth, C. Andrews, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, P. Cook, S. Cook, C. Cuss, D.T. Davies MBE, C. Forehead, E. Forehead, A. Gair, N. George, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, L. Jeremiah, G. Johnston, A. Leonard, P. Leonard, A. McConnell, B. Miles, C. Morgan, S. Morgan, L. Phipps, M. Powell, J. Pritchard, J. Sadler, R. Saralis, J. Scriven, J. Simmonds, E. Stenner, C. Thomas, S. Williams, W. Williams, J. Winslade, K. Woodland, C. Wright **(41)**

**Ymatal:**

L.G. Whittle **(1)**

Datganwyd bod y gwelliant wedi ei golli gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

Cafwyd dadl ar y cynnig o sylwedd, a mynegodd sawl Aelod yr angen i gynnal cynaliadwyedd y Cyngor drwy gefnogi cyllideb gytbwys.

Cyfeiriodd Aelod at y cynnig i dynnu'r cymhorthdal ar gyfer gwasanaeth bws Cyswllt Rheilffordd y Coed-duon i Ystrad Mynach yn ôl a mynegodd bryderon y gallai hyn effeithio'n negyddol ar nifer sylweddol o gymudwyr ac nad oedd yn annog teithio cynaliadwy. Atgoffwyd yr aelodau fod Trafnidiaeth Cymru yn bwriadu cyflwyno gwasanaethau rheilffordd ychwanegol ym mhob gorsaf ar draws y Fwrdeistref Sirol bob 15 munud, sy'n golygu na fydd

angen gwasanaeth bws-rheilffordd dynodedig mwyach gan y bydd cymudwyr yn gallu cysylltu'n hawdd ag un o'r bysiau gwasanaeth presennol sy'n rhedeg rhwng y Coed-duon ac Ystrad Mynach, gan arwain at ddim effaith ar ddefnyddwyr trenau a bysiau.

Mynegwyd pryderon ynghylch y cynnydd arfaethedig o 12% mewn ffioedd caeau chwaraeon a'r pwysau ariannol y gallai hyn ei roi ar glybiau chwaraeon lleol. Pwysleisiwyd bod y Cyngor wedi gwrandao ar ei drigolion drwy leihau'r cynnydd arfaethedig o 20% i 12%, a bod ffioedd caeau chwaraeon ar draws y Fwrdeistref Sirol yn parhau'n rhatach na rhai awdurdodau cyfagos.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch y gostyngiad arfaethedig yn oriau gofalgwyr mewn canolfannau cymunedol, gan gynnwys y posibilrwydd o golli swyddi a'r pwysau ychwanegol y byddai hyn yn ei roi ar wirfoddolwyr canolfannau. Gofynnwyd am sicrwydd ynghylch ymrwymiad y Cyngor i gefnogi canolfannau cymunedol. Eglurodd yr Aelod Cabinet Gwastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd fod y Cyngor wedi addo gweithio gyda phob canolfan gymunedol a'u pwyllgorau priodol, ond bod y baich yn fawr iawn ar ddefnydd/cefnogaeth gymunedol i sicrhau bod y canolfannau hyn yn parhau ar agor.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut y byddai cynigion y gyllideb yn cefnogi trigolion mwyaf agored i niwed y Cyngor. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol fod dyraniad o £9.3m mewn twf ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys £3.9m i ddiwallu anghenion y plant mwyaf agored i niwed, £2.8m i alluogi partneriaid yn y sector annibynnol i dalu'r cyflog byw gwirioneddol, £697k i sefydlu tîm Gofalu am Gaerffili fel gwasanaeth parhaol yn deillio o golli cyllid gan Lywodraeth Cymru, a £232k i alluogi'r Cyngor i ddiwallu anghenion ychwanegol pobl ag anableddau dysgu sy'n byw mewn llety byw â chymorth. At hynny, mae £1.7m hefyd wedi'i ddyrannu i Dai i gefnogi darparu llety dros dro i'r preswylwyr hynny sy'n wynebu digartrefedd.

Gofynnodd yr Aelodau sut y byddai'r cynigion cyllideb hyn yn effeithio ar gyllid i ysgolion CBSC. Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau bod hyn mewn termau real yn cyfateb i gynnydd cyllid o dros 8%. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y gofynnir i ysgolion gyfrannu at eu biliau ynni. Mae'r gyllideb hon hefyd yn golygu y bydd y Cyngor yn gallu parhau i adeiladu ysgolion newydd drwy'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a Diogelu addysg i bobl ifanc ar draws y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol. Mewn ymateb, mynegodd Aelod ei siom fod ymwybyddiaeth ôl-troed carbon wedi'i nodi fel rheswm pam y gofynnwyd i ysgolion gyfrannu at eu biliau ynni wrth symud ymlaen.

Bu'r Cyngor yn trafod y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn helaeth a phwysleisiodd yr Aelodau'r angen i gadw'r cronfeydd wrth gefn hyn er mwyn buddsoddi mewn seilwaith yn y dyfodol a diogelu prosiectau i drigolion a chenedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys tai cyngor newydd, adeiladau ysgol newydd a phrosiectau adfywio ar draws y Fwrdeistref Sirol, ynghyd â'r angen i gadw cronfeydd wrth gefn wedi'u neilltuo ar gyfer meysydd y mae dirfawr angen amdanynt gan gynnwys cynnal a chadw yn y gaeaf, y cynllun prentisiaeth ac atal digartrefedd.

Derbyniwyd ymholiad ynghylch lefel y cronfeydd wrth gefn a ragwelwyd ar ddiwedd 2022/23. Eglurodd y Swyddog Adran 151 fod nifer o drafodion yn digwydd trwy gydol y flwyddyn ariannol ond yn seiliedig ar asesiad lefel uchel ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod y cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd 2022/23 yn debygol o ostwng i tua £178m. Pwysleisiwyd mai rhagamcan yn unig yw hwn ar hyn o bryd ac y gallai amgylchiadau newid, ond mae'r Awdurdod bellach ar lwybr ar i lawr o ran balansau wrth gefn. Gofynnodd Aelod arall am eglurhad ar sut y byddai'r cronfeydd hyn yn cael eu lleihau, ac esboniodd Mr Harris y byddai hyn yn cynnwys gostyngiad rhagamcanol ym malansau ysgolion o £17m i £8.4m a gostyngiad o £15m i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2023/24, ynghyd â symudiadau niferus ar draws cronfeydd wrth gefn eraill erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.



Gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut y byddai busnesau ar draws y Fwrdeistref Sirol yn cael eu cefnogi, a nodwyd y byddai mwy o fuddsoddiad mewn busnesau bach yn ystod 2023/24, gan gynnwys dyraniad ychwanegol o £500k o ran Cronfa Fenter Caerffili. Hefyd, gwnaed buddsoddiad mewn tîm canol tref newydd i gefnogi busnesau ar draws y Fwrdeistref Sirol a bydd gwell rhaglen Ddigwyddiadau yn cael ei chynnal yn 2023, er mwyn cynorthwyo adfywio a chynyddu nifer yr ymwelwyr ar draws canol trefi.

Gofynnwyd am sicrwydd na fyddai unrhyw ddiswyddiadau gorfodol ar draws y Cyngor o ganlyniad i'r cynigion cyllidebol hyn. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol ac Eiddo fod y gyllideb yn anelu at warchod gwasanaethau rheng flaen a thrigolion lle bynnag y bo modd a chadarnhaodd na fyddai unrhyw ddiswyddiadau gorfodol o ganlyniad i'r gyllideb hon.

Rhodddwyd eglurhad ar gynllun consesiynol Treth y Cyngor, gan nodi y gall trigolion ofyn am gyngor gan dîm Gofalu am Gaerffili ynghylch a ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Amlygwyd gwaith tîm Gofalu am Gaerffili ymhellach.

Gofynnwyd am eglurhad ar yr arbediad dros dro o £50k yn erbyn y Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn deillio o reoli swyddi gweigion o ganlyniad i drosiant staff, gydag Aelod yn gofyn a fyddai recriwtio yn digwydd i lenwi'r swydd wag er mwyn darparu'r gwasanaeth mawr ei angen hwn i ysgolion. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol mai arbediad dros dro am flwyddyn yw hwn i raddau helaeth, oherwydd maint y trosiant staff yn y maes penodol hwn. Eglurwyd bod yr Awdurdod yn agosáu at ei gyflenwad llawn o ran seicolegwyr addysg.

Ar ôl cynnig ac eilio eisoes bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, cafwyd pleidlais ar y cynnig o sylwedd.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15.4(1) gwnaed cais am bleidlais gofnodedig a gefnogwyd gan 10 Aelod.

#### **O blaid y Cynnig:**

M. Adams, E.M. Aldworth, C. Andrews, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, P. Cook, S. Cook, C. Cuss, D.T. Davies MBE, C. Forehead, E. Forehead, A. Gair, N. George, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, L. Jeremiah, G. Johnston, A. Leonard, P. Leonard, A. McConnell, B. Miles, C. Morgan, S. Morgan, L. Phipps, M. Powell, J. Pritchard, J. Sadler, R. Saralis, J. Simmonds, E. Stenner, C. Thomas, S. Williams, W. Williams, J. Winslade, K. Woodland, C. Wright **(40)**

#### **Yn erbyn y Cynnig:**

A.P. Angel, C. Bishop, D. Cushing, N. Dix, G. Ead, G. Enright, K. Etheridge, A. Farina-Childs, J.E. Fussell, M.P. James, J. Jones, S. Kent, C.P. Mann, B. Owen, T. Parry, H. Pritchard, J.A. Pritchard, J. Reed, J. Scriven, J. Roberts, J. Taylor, L.G. Whittle **(22)**

Datganwyd bod y bleidlais ar y cynnig o sylwedd wedi'i chario gan y mwyafrif a oedd yn bresennol a

PHENDERFYNWYD: -

- (i) cymeradwyo'r cynigion cyllideb referniw ar gyfer 2023/24 o £438.722m fel y manylwyd arnynt drwy'r adroddiad ac a grynhoir yn Atodiad 1;
- (ii) cymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb arfaethedig mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fel y manylir ar hynny ym mharagraff 5.3.12;
- (iii) cymeradwyo'r defnydd arfaethedig o £346k o Gronfa Wrth Gefn Rheoli Ysgolion yn Lleol (LMS) fel swm unwaith ac am byth i gefnogi cyfraniad

2023/24 y Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes i'r gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw 50% ar gyfer ysgolion (fel y manylir ym mharagraff 5.5.3);

- (iv) nodi'r symudiadau ar y Gronfa Gyffredinol yn Atodiad 5 a'r balans rhagamcanol presennol ar 31 Mawrth 2023 o £13.041m;
- (v) cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2023/24 i 2025/26 fel y nodir hynny yn Atodiad 6;
- (vi) cymeradwyo'r cynnig i gynyddu Treth y Cyngor 7.9% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 i sicrhau y ceir cyllideb gytbwys (Band D Treth y Cyngor yn cael ei osod ar £1,353.01);
- (vii) nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddarau yn Atodiad 7 sy'n dangos gofyniad dangosol ar gyfer arbedion posibl o £48.335m ar gyfer y cyfnod dwy flynedd 2024/25 i 2025/26.

## 6. PENDERFYNIAD GOSOD Y DRETH GYNGOR 2023/24

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i Benderfyniadau Gosod Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

Gofynnwyd i'r aelodau nodi newidiadau i'r ffigurau a nodir yn Adrannau 2(a) a 2(b) o'r adroddiad, sef y dylai Adran 2(a) ddarllen £438,722,307 ac Adran 2(b) ddarllen £16,395,377. Dywedwyd wrth yr Aelodau na fyddai'r newid hwn yn cael unrhyw effaith ar ffigurau Treth y Cyngor.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y penderfyniadau yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar a chan nodi bod 43 o blaid, 18 yn erbyn a 0 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD: -

1. Nodi bod y Cabinet yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2022 wedi cyfrifo'r symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2023/2024 yn unol â rheoliadau a wnaed o dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a'r pwerau a roddwyd o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd).

- (a) **61,135.13** Sef y swm a gyfrifwyd gan y Cabinet, yn unol â Rheoliad (3) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995 (fel y'i diwygiwyd), fel ei sylfaen treth gyngor am y flwyddyn.

- (b) **Rhan o ardal y Cyngor:**  
**Sylfaen Treth ar gyfer pob**  
**Cyngor Cymuned**

**Sylfaen Treth**  
**Nifer yr Eiddo yn**  
**Cyfateb i Fand D**

<b>Cwm Aber</b>	<b>2,008.28</b>
<b>Argoed</b>	<b>880.45</b>
<b>Bargod</b>	<b>3,697.40</b>

Bedwas, Tretomos a Machen	3,969.95
Coed-duon	2,959.91
Caerffili	6,284.17
Cwm Darran	713.62
Draethen, Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri	620.42
Gelligaer	6,322.88

**Sylfaen Treth ar gyfer pob  
Cyngor Cymuned**

**Sylfaen Treth  
Nifer yr Eiddo yn  
Cyfateb i Fand D**

Llanbradach a Pwll-y-pant	1,504.43
Maesycwmwr	957.98
Nelson	1,590.59
Tredegar Newydd	1,335.80
Pen-yr-heol, Trecenydd a Eneu'r-glyn	4,547.97
Rhymni	2,564.25
Dwyrain Rhisga	2,038.26
Gorllewin Rhisga	1,819.23
Y Fan	1,644.55
Y Gweddill	15,674.99
<b>Cyfanswm</b>	<b>61,135.13</b>

sef y symiau a gyfrifir gan y cabinet, yn unol â rheoliad 6 y Rheoliadau, fel symiau ei sylfaen treth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn ymwneud â hwy.

**2. Bod y symiau canlynol yn cael eu cyfrifo gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/2024 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chyllid 1992:-**

- (a) **£438,722,307** sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) i (d) y Ddeddf;
- (b) **£16,395,377** sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(3) (a), (aa) a (c) y Ddeddf;
- (c) **£423,291,731** sef y swm y mae'r cyfanswm yn (2)(a) uchod yn fwy na'r cyfanswm yn (2)(b) uchod, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn;
- (d) **£339,610,488** sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif a fydd yn daladwy am y flwyddyn i mewn i'w gronfa gyngor mewn perthynas ag ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu, grant cynnal refereniw, cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor awdurdod neu grant ychwanegol;
- (e) **£1,368.79** sef y swm yn (2)(c) uchod llai'r swm yn (2)(d) uchod, dylid rhannu'r cyfan â'r swm yn (1)(a) uchod, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag

*Adran 33(1) o'r Ddeddf, fel swm sylfaenol ei dreth gyngor am y flwyddyn;*

**(f) £964,801** *sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn adran 34(1) o'r Ddeddf;*

**(g) £1,353.01** *sef y swm yn (2)(e) uchod llai y canlyniad a roddwyd drwy rannu'r swm yn (2)(f) uchod â'r swm yn (1)(a) uchod, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34 (2) o'r Ddeddf, fel swm sylfaenol ei dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal nad oes unrhyw eitem arbennig yn ymwneud â hwy;*

**(h) Rhan o Ardal y Cyngor**

		<b>Ardoll y</b>	<b>Cyfanswm</b>
	<b>Praesept</b>	<b>Fwrdeistr</b>	<b>Tâl Band D y</b>
	<b>Lleol</b>	<b>ef Sirol</b>	<b>Fwrdeistref</b>
			<b>Sirol a</b>
			<b>Chynghorau</b>
			<b>Cymuned</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
Cwm Aber	19.92	1,353.01	1,372.93
Argoed	15.50	1,353.01	1,368.51
Bargod	46.45	1,353.01	1,399.46
Bedwas, Tretomos a Machen	27.71	1,353.01	1,380.72
Coed-duon	20.00	1,353.01	1,373.01
Caerffili	15.50	1,353.01	1,368.51
Cwm Darran	18.19	1,353.01	1,371.20
Draethen, Tŷ'n-y-coed-cae a			
Rhydri	32.24	1,353.01	1,385.25
Gelligaer	21.13	1,353.01	1,374.14
Llanbradach a Pwll-y-pant	23.58	1,353.01	1,376.59
Maesycwmwr	19.10	1,353.01	1,372.11
Nelson	18.24	1,353.01	1,371.25
Tredegar Newydd	12.67	1,353.01	1,365.68
Pen-yr-heol, Trecenydd a Eneu'r-			
glyn	14.50	1,353.01	1,367.51
Rhymni	14.04	1,353.01	1,367.05
Dwyrain Rhisga	12.00	1,353.01	1,365.01
Gorllewin Rhisga	29.00	1,353.01	1,382.01
Y Fan	16.63	1,353.01	1,369.64
Y Gweddill	0.00	1,353.01	1,353.01

*sef y symiau a roddwyd drwy ychwanegu at y swm yn (2)(g) uchod symiau'r eitem arbennig neu eitemau sy'n ymwneud ag anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a grybwyllwyd uchod wedi'u rhannu ym mhob achos â'r swm yn (1)(b) uchod, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel y symiau sylfaenol, o'i dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn ymwneud â hwy;*

(i)

<b>Bandiau Priso</b>	<b>A</b>	<b>B</b>	<b>C</b>	<b>D</b>	<b>E</b>	<b>F</b>	<b>G</b>	<b>H</b>	<b>I</b>
	6.00	7.00	8.00	9.00	11.00	13.00	15.00	18.00	21.00
<b><u>Bandiau Priso</u></b>	<b>A</b>	<b>B</b>	<b>C</b>	<b>D</b>	<b>E</b>	<b>F</b>	<b>G</b>	<b>H</b>	<b>I</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol</b>	902.01	1,052.34	1,202.68	1,353.01	1,653.68	1,954.35	2,255.02	2,706.02	3,157.02
<b><u>Cynghorau Cymuned</u></b>									
Cwm Aber	13.28	15.49	17.71	19.92	24.35	28.77	33.20	39.84	46.48
Argoed	10.33	12.06	13.78	15.50	18.94	22.39	25.83	31.00	36.17
Bargod	30.97	36.13	41.29	46.45	56.77	67.09	77.42	92.90	108.38
Bedwas, Tretomos a Machen	18.47	21.55	24.63	27.71	33.87	40.03	46.18	55.42	64.66
Coed-duon	13.33	15.56	17.78	20.00	24.44	28.89	33.33	40.00	46.67
Caerffili	10.33	12.06	13.78	15.50	18.94	22.39	25.83	31.00	36.17
Cwm Darran	12.13	14.15	16.17	18.19	22.23	26.27	30.32	36.38	42.44
Draethen, Tŷn-y-coed-cae a Rhydri	21.49	25.08	28.66	32.24	39.40	46.57	53.73	64.48	75.23
Gelligaer	14.09	16.43	18.78	21.13	25.83	30.52	35.22	42.26	49.30
Llanbradach a Pwll-y-pant	15.72	18.34	20.96	23.58	28.82	34.06	39.30	47.16	55.02
Maesycwmwr	12.73	14.86	16.98	19.10	23.34	27.59	31.83	38.20	44.57
Nelson	12.16	14.19	16.21	18.24	22.29	26.35	30.40	36.48	42.56
Tredegar Newydd	8.45	9.85	11.26	12.67	15.49	18.30	21.12	25.34	29.56
Pen-yr-heol, Trecenydd a Eneu'r-glyn	9.67	11.28	12.89	14.50	17.72	20.94	24.17	29.00	33.83
Rhymni	9.36	10.92	12.48	14.04	17.16	20.28	23.40	28.08	32.76
Dwyrain Rhisga	8.00	9.33	10.67	12.00	14.67	17.33	20.00	24.00	28.00
Gorllewin Rhisga	19.33	22.56	25.78	29.00	35.44	41.89	48.33	58.00	67.67
Y Fan	11.09	12.93	14.78	16.63	20.33	24.02	27.72	33.26	38.80
Y Gweddill	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00
<b><u>Bandiau Priso</u></b>	<b>A</b>	<b>B</b>	<b>C</b>	<b>D</b>	<b>E</b>	<b>F</b>	<b>G</b>	<b>H</b>	<b>I</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
<b><u>Cyfansymiau ar gyfer Ardaloedd Cynghorau Cymuned</u></b>									
Cwm Aber	915.29	1,067.83	1,220.39	1,372.93	1,678.03	1,983.12	2,288.22	2,745.86	3,203.50
Argoed	912.34	1,064.40	1,216.46	1,368.51	1,672.62	1,976.74	2,280.85	2,737.02	3,193.19
Bargod	932.98	1,088.47	1,243.97	1,399.46	1,710.45	2,021.44	2,332.44	2,798.92	3,265.40
Bedwas, Tretomos a Machen	920.48	1,073.89	1,227.31	1,380.72	1,687.55	1,994.38	2,301.20	2,761.44	3,221.68
Coed-duon	915.34	1,067.90	1,220.46	1,373.01	1,678.12	1,983.24	2,288.35	2,746.02	3,203.69
Caerffili	912.34	1,064.40	1,216.46	1,368.51	1,672.62	1,976.74	2,280.85	2,737.02	3,193.19
Cwm Darran	914.14	1,066.49	1,218.85	1,371.20	1,675.91	1,980.62	2,285.34	2,742.40	3,199.46
Draethen, Tŷn-y-coed-cae a Rhydri	923.50	1,077.42	1,231.34	1,385.25	1,693.08	2,000.92	2,308.75	2,770.50	3,232.25
Gelligaer	916.10	1,068.77	1,221.46	1,374.14	1,679.51	1,984.87	2,290.24	2,748.28	3,206.32
Llanbradach a Pwll-y-pant	917.73	1,070.68	1,223.64	1,376.59	1,682.50	1,988.41	2,294.32	2,753.18	3,212.04
Maesycwmwr	914.74	1,067.20	1,219.66	1,372.11	1,677.02	1,981.94	2,286.85	2,744.22	3,201.59
Nelson	914.17	1,066.53	1,218.89	1,371.25	1,675.97	1,980.70	2,285.42	2,742.50	3,199.58
Tredegar Newydd	910.46	1,062.19	1,213.94	1,365.68	1,669.17	1,972.65	2,276.14	2,731.36	3,186.58
Pen-yr-heol, Trecenydd a Eneu'r-glyn	911.68	1,063.62	1,215.57	1,367.51	1,671.40	1,975.29	2,279.19	2,735.02	3,190.85
Rhymni	911.37	1,063.26	1,215.16	1,367.05	1,670.84	1,974.63	2,278.42	2,734.10	3,189.78
Dwyrain Rhisga	910.01	1,061.67	1,213.35	1,365.01	1,668.35	1,971.68	2,275.02	2,730.02	3,185.02
Gorllewin Rhisga	921.34	1,074.90	1,228.46	1,382.01	1,689.12	1,996.24	2,303.35	2,764.02	3,224.69
Y Fan	913.10	1,065.27	1,217.46	1,369.64	1,674.01	1,978.37	2,282.74	2,739.28	3,195.82
Y Gweddill	902.01	1,052.34	1,202.68	1,353.01	1,653.68	1,954.35	2,255.02	2,706.02	3,157.02

sef y symiau a roddir drwy luosi'r symiau yn (2)(g) a (2)(h) uchod â'r nifer sydd, yn y gyfran a nodir yn Adran 5(1) o'r Ddeddf, yn gymwys i anheddau a restrir yn a band prisio penodol wedi'i rannu â'r nifer sydd yn y gyfran honno yn gymwys i anheddau a restrir ym mand prisio D penodol, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, fel y symiau i'w cymryd i ystyriaeth ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategoriâu o anheddau a restrir yn y gwahanol Fandiau Prisio.

3. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2023/2024 bod y prif awdurdod praeseptio wedi datgan y symiau canlynol mewn praeseptau a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

<b>Bandiau Prisio</b>	<b>A</b>	<b>B</b>	<b>C</b>	<b>D</b>	<b>E</b>	<b>F</b>	<b>G</b>	<b>H</b>	<b>I</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
<b>Awdurdod Praeseptu</b>									
Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent	216.35	252.40	288.46	324.52	396.64	468.75	540.87	649.04	757.21

4. Ar ôl cyfrifo'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn (2)(i) a (3) uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn gosod y symiau a ganlyn i'r Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/2024 i bob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

<b>Bandiau Prisio</b>	<b>A</b>	<b>B</b>	<b>C</b>	<b>D</b>	<b>E</b>	<b>F</b>	<b>G</b>	<b>H</b>	<b>I</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
Cwm Aber	1,131.64	1,320.23	1,508.85	1,697.45	2,074.67	2,451.87	2,829.09	3,394.90	3,960.71
Argoed	1,128.69	1,316.80	1,504.92	1,693.03	2,069.26	2,445.49	2,821.72	3,386.06	3,950.40
Bargod	1,149.33	1,340.87	1,532.43	1,723.98	2,107.09	2,490.19	2,873.31	3,447.96	4,022.61
Bedwas, Tretomos a Machen	1,136.83	1,326.29	1,515.77	1,705.24	2,084.19	2,463.13	2,842.07	3,410.48	3,978.89
Coed-duon	1,131.69	1,320.30	1,508.92	1,697.53	2,074.76	2,451.99	2,829.22	3,395.06	3,960.90
Caerffili	1,128.69	1,316.80	1,504.92	1,693.03	2,069.26	2,445.49	2,821.72	3,386.06	3,950.40
Cwm Darran	1,130.49	1,318.89	1,507.31	1,695.72	2,072.55	2,449.37	2,826.21	3,391.44	3,956.67
Draethen, Tŷn-y-coed-cae a Rhydri	1,139.85	1,329.82	1,519.80	1,709.77	2,089.72	2,469.67	2,849.62	3,419.54	3,989.46
Gelligaer	1,132.45	1,321.17	1,509.92	1,698.66	2,076.15	2,453.62	2,831.11	3,397.32	3,963.53
Llanbradach a Pwll-y-pant	1,134.08	1,323.08	1,512.10	1,701.11	2,079.14	2,457.16	2,835.19	3,402.22	3,969.25
Maescywmwr	1,131.09	1,319.60	1,508.12	1,696.63	2,073.66	2,450.69	2,827.72	3,393.26	3,958.80
Nelson	1,130.52	1,318.93	1,507.35	1,695.77	2,072.61	2,449.45	2,826.29	3,391.54	3,956.79
Tredeggar Newydd	1,126.81	1,314.59	1,502.40	1,690.20	2,065.81	2,441.40	2,817.01	3,380.40	3,943.79
Pen-yr-heol, Trecenydd a Eneu'r-glyn	1,128.03	1,316.02	1,504.03	1,692.03	2,068.04	2,444.04	2,820.06	3,384.06	3,948.06
Rhymni	1,127.72	1,315.66	1,503.62	1,691.57	2,067.48	2,443.38	2,819.29	3,383.14	3,946.99
Dwyrain Rhisga	1,126.36	1,314.07	1,501.81	1,689.53	2,064.99	2,440.43	2,815.89	3,379.06	3,942.23
Gorllewin Rhisga	1,137.69	1,327.30	1,516.92	1,706.53	2,085.76	2,464.99	2,844.22	3,413.06	3,981.90
Y Fan	1,129.45	1,317.67	1,505.92	1,694.16	2,070.65	2,447.12	2,823.61	3,388.32	3,953.03
Y Gweddill	1,118.36	1,304.74	1,491.14	1,677.53	2,050.32	2,423.10	2,795.89	3,355.06	3,914.23

Daeth y cyfarfod i ben am 7.52 pm

Cymeradwywyd fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw newidiadau neu gywiriadau a gytunwyd ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 23 Mai 2023, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

---

MAER